**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION
# CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:30a.m., DYDD MERCHER, 13 CHWEFROR 2013**

**10:30a.m., WEDNESDAY, 13 FEBRUARY 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GLYDER FAWR**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**PENRALLT, CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 06.02.13

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

**CHIEF OFFICERS APPOINTMENTS COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Dyfed Edwards Sian Gwenllian

Peredur Jenkins Linda W. Jones

Liz Saville Roberts Dyfrig Siencyn

R.H. Wyn Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Trefor Edwards Jean Forsyth

Eric M. Jones Angela Russell

**Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Alwyn Gruffydd Aeron M. Jones

**Llafur/Labour (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

D. Gwynfor Edwards

**Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats (1)**

Y Cynghorydd/Councillor

Stephen Churchman

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2012 fel rhai cywir (copi yma – papur gwyn)

**5. POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION**

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr (copi yma – papur glas)

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 27.07.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Linda W. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Stephen Churchman, Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Sian Gwenllian, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol – ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 ar y rhaglen) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu – ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 ar y rhaglen)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dyfed Edwards a Liz Saville Roberts

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATER BRYS

Cytunodd y Cadeirydd, dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys cofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 a 20 Gorffennaf 2012 fel mater brys gan nad oeddynt wedi eu cynnwys ar y rhaglen.

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 a 20 Gorffennaf 2012 fel rhai cywir.

## 3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 4. PENODI PENNAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN

Adroddwyd ar ganlyniadau'r Ganolfan Asesu.

Cyfwelwyd un ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd.

**PENDERFYNWYD penodi Morwena Edwards i'r swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben 11.45am

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** |
| **Dyddiad** | **13 Chwefror 2013** |
| **Teitl** | **Polisi Tâl ar gyfer Prif Swyddogion** |
| **Pwrpas** | **Gwneud argymhellion i'r Cygnor llawn** |
| **Awdur** | **Prif Weithredwr – Harry Thomas** |
| **Arweinydd Portffolio** | **Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

1. **CEFNDIR**

1.1 Y llynedd, am y tro cyntaf, roedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl ar gyfer Prif Swyddogion ar sail flynyddol. Yn unol â gofynion y ddarpariaeth statudol, swyddogaeth i'r Cyngor llawn ddylai hwn fod.

1.2 Wrth fabwysiadu polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r pwyllgor hwn adolygu cynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol ac adrodd yn ôl i'r Cyngor. Felly, gofynnir i'r pwyllgor hwn gynghori'r Cyngor ar ei bolisi tâl ar gyfer Prif Swyddogion yn 2013/14 a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror.

1.3 Er mwyn gwneud hyn, yn gyntaf rhaid i'r Pwyllgor ystyried effeithiau aildrefnu gwasanaethau a ddigwyddodd yr haf diwethaf pan grëwyd y swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden er mwyn ymgymryd â swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gynt a nifer o swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Darparu. Pan wnaed y penodiad i'r swydd, penderfynwyd defnyddio cyflog y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gynt fel cyflog dros dro i'r swydd newydd gan aros am arfarniad annibynnol o'r cyflog priodol.

2.0 **ARFARNIAD O EFFEITHIAU'R AILSTRWYTHURO**

2.1 Comisiynwyd Hay Group i arfarnu'r rolau isod yn sgil cynnydd mewn cyfrifoldebau

- Pennaeth Addysg — Wedi ychwanegu darpariaeth weithredol o lanhau ac arlwyo ysgolion.
- Pennaeth Gofal Cwsmer — Wedi ychwanegu glanhau a gofalu am adeiladau heblaw am ysgolion.
- Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol — Wedi ychwanegu glanhau toiledau cyhoeddus

| | |
|---|---|
| • Pennaeth Strategol a Gwella | Fel rhan o ailstrwythuro ar wahân, wedi cymryd y Gwasanaeth Democratiaeth. |
| • Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden | Rheoli gofal cymdeithasol ynghyd â'r rhan fwyaf o wasanaethau darparu (hamdden, preswyl a chartrefi gofal ac ati). |

2.2 Atodir crynodeb o arfarniad Hay Group yn ATODIAD 1. Yn fyr, dyma'r argymhellion:-

- Pennaeth Addysg – dim newid
- Pennaeth Gofal Cwsmer – dim newid
- Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol – dim newid
- Pennaeth Strategol a Gwella – dim newid
- Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden – mae'r dyletswyddau ychwanegol i rai yr hen swydd gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol ac mae cyfanswm pwyntiau Hay yn sylweddol uwch na'r swydd pennaeth gwasanaeth nesaf ar y raddfa. Mae Hay Group felly'n argymell cyflog yn defnyddio yr un polisi (chwartel isaf) ar gyfer HS3 a swydd Cyfarwyddwyr. Wrth osod y polisi yma i faint arfarniad y swydd mae'n cyfartalu i gyflog o £80,972. (Mae hyn yn cymharu â £75,111 ar gyfer y cyflog dros dro a ddefnyddiwyd ar y penodiad)

2.3 Yn sgil y cyfrifoldebau ariannol ychwanegol – cyfrifoldeb uniongyrchol am £29m ychwanegol a'r cyfrifoldebau gweithlu ychwanegol – dros 1,000 o staff ychwanegol – argymhellaf y dylid derbyn argymhellion Hay Group.

2.4 Mae'r arbedion sydd wedi dod yn sgil dileu'r swydd Pennaeth Gwasanaeth Darparu, sef £120,000 am flwyddyn lawn yn mwy na diwallu'r gost ychwanegol o £5,861 ac argostau am flwyddyn lawn (£3,419 ar gyfer 2012/13).

## 3.0 <u>GWEDDILL Y POLISI TÂL</u>

3.1 Mae'r polisi tâl presennol yn nodi:-

- Y dylid talu Cyfarwyddwyr ar gyfradd union o dan chwartel isaf y farchnad sector cyhoeddus (mae chwartel isaf yn golygu bod 75% o'r sector sydd wedi'u harfarnu fel bod ganddynt swyddi o faint cyfartal yn cael mwy o gyflog).
- Mae'r Penaethiaid Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden hefyd yn cael eu talu ar lefel y chwartel isaf.
- Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth eraill yn cael eu talu ar ganolrif y farchnad sector cyhoeddus ar gyfer swyddi o faint tebyg.

3.2 Tra bod nifer o ffactorau sy'n effeithio ar allu Cyngor Gwynedd i ddenu a chadw uwch reolwyr, credaf fod y polisi tâl yn gyffredinol gynaliadwy ar hyn o bryd ar gyfer y Penaethiaid Gwasanaeth hynny sy'n cael eu talu ar y lefel ganolrif. Felly, nid wyf yn argymell unrhyw newid i'r swyddi hyn.

3.3 Mae'r sefyllfa ynglŷn â'r Cyfarwyddwyr a gweddill y Penaethiaid Gwasanaeth yn anos. Mae talu ar y lefel chwartel isaf yn dod â risgiau i'r Cyngor. Er enghraifft, fy nealltwriaeth i yw bod y Cyfarwyddwyr ar y cyflog uchaf ym mhum awdurdod arall gogledd Cymru a Phowys yn cael cyflog ar lefel uwch na Chyfarwyddwyr Gwynedd (hyd yn oed ar ôl yr ailraddio diweddar). Mae bod â'r cyflog isaf mewn grŵp o awdurdodau, gyda Gwynedd yn un o'r awdurdodau mwyaf, yn codi risgiau yn y tymor canolig.

3.4 Fodd bynnag, wedi ystyried, credaf y gallwn fforddio ohirio'r mater am o leiaf flwyddyn arall. Felly, nid wyf yn argymell unrhyw newid yn 2013/14.

3.5 Mater arall y mae gofyn rhoi sylw iddo yw amseru ailraddio'r cyflog gwirioneddol i'r meincnodau. Mae gofyn i'r Cyngor fod yn fwy eglur ynglŷn â'r mater hwn. O ystyried bod ailraddio wedi digwydd eleni, argymhellaf fod yr ailraddio nesaf yn digwydd ym mlwyddyn ariannol 2015/16.

## 4.0 <u>CASGLIADAU</u>

4.1 Yn y pendraw, gall talu gormod a rhy ychydig o gyflog ill dau gynrychioli gwerth gwael i'r trethdalwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae taro cydbwysedd yn anodd ar y gorau, ond rhaid i'r nod cyffredinol fod yr un peth ag yw gyda thâl staff eraill – cynaladwyedd. Ar y cyfan, credaf fod peidio â newid y polisi am y flwyddyn nesaf yn bodloni'r nod hwn ond ni allaf ddweud yr un peth yn y tymor hwy.

## 5.0 <u>ARGYMHELLION</u>

5.1 Y dylid gosod tâl y swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden sydd newydd ei harfarnu ar £80,972 o 1 Medi 2012.

5.2 Nad oes unrhyw newid i fandiau cyflog gweddill y Penaethiaid Gwasanaeth oedd yn cael eu heffeithio gan yr ailstrwythuro y llynedd.

5.3 Nad oes unrhyw newid i'r polisi tâl cyffredinol am y flwyddyn nesaf yn nhermau'r lefelau meincnod h.y. lefel canolrif a chwartel isaf ar gyfer yr un swyddi.

5.4 Bod yr ailraddio o dâl gwirioneddol i lefelau meincnod yn digwydd nesaf yn 2015/16.

ATODIAD 1

## CRYNODEB HAY GROUP

### ARGYMHELLION

### Pennaeth Addysg

Tra bod heriau sylweddol yn parhau a bod yr adran wedi derbyn gwasanaeth gweithredol ychwanegol (arlwyo a glanhau), mae’r rôl yn gyffredinol yr un maint a siâp. Mae’r rôl yn parhau i fod yn un o’r rolau Pennaeth Gwasanaeth mwyaf.

*Crynodeb o’r Arfarniad Swydd: F II+ 3 460 E4(43) 200*
*E4-S+ 264 = 924 Cyfanswm Pwyntiau Hay*

*Mae’r rôl yn un ar gyfer rhywun proffesiynol a phrofiadol sydd â phrofiad helaeth a chynhwysfawr mewn addysg (strategaeth, polisi a chyflwyno). Mae’r rôl yn arwain (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) ar adnoddau, perfformiad a gwella addysg i’r awdurdod – gyda chynllunio tymor canolig a hir, yn cynnwys gwaith cydweithredol. Mae’r rôl yn cynnwys lefel uchel o arweinyddiaeth a rhyngweithio gydag ysgolion, awdurdodau ac asiantaethau eraill a Llywodraeth Cymru.*
*Fel prif arweinydd Addysg yr awdurdod, mae’r rôl yn golygu bod â pherchnogaeth o gyflwyno polisïau a safonau gyda’r ysgolion eu hunain yn gyfrifol am berfformiad yn y pendraw. Mae’r tirwedd polisi yn gymhleth ac yn gyfnewidiol. Mae’r rôl yn atebol am bolisi addysg i Wynedd, gan rannu atebolrwydd uniongyrchol gyda Phrifathrawon am gyrhaeddiad.*

- **Dylai’r rôl hon barhau ar HS3**

### Pennaeth Gofal Cwsmer

Mae’r rôl yn un eang ac yn un ‘corfforaethol’ yn hytrach na’n swydd swyddogaethol. Tra bydd y swyddogaeth glanhau ychwanegol yn gyfrifol am gynnydd cymesurol mawr yng ngweithlu’r adran, mae’r sgôp a’r cymhlethdod cyffredinol yr un peth yn ei hanfod. Mae’r rôl wedi cael cynnydd bychan mewn atebolrwydd (ac felly maint y swydd) ond mae’n gyffredinol yr un peth (gan barhau ar yr un raddfa).

*Crynodeb o’r Arfarniad Swydd: F II 3 400 E4 (43) 175*
*E4-S 264 = 775-839 Amrediad Pwyntiau Hay*

*Mae’r rôl ar gyfer rhywun proffesiynol a phrofiadol sydd ei hangen ar gyfer dealltwriaeth corfforaethol/cwsmer yn gymaint ag am arbenigedd proffesiynol. Mae’r rôl yn ehangu dros amrediad o feysydd amrywiol (llyfrgelloedd, TG, gwybodaeth, tir ac eiddo, cynllunio argyfwng, gofal cwsmer, glanhau) gyda chymhlethdod i gydlynu ac integreiddio/alinio dros amser. Mae’r rôl yn asiant newid allweddol yn gorfforaethol, ac felly mae angen lefel uchel o arweinyddiaeth a dylanwad.*
*Mae’r rôl yn penderfynu sut ddylai pethau gael eu gwneud ar draws gwasanaethau i ddatblygu a gweithredu newid (e.e. TG), mynd i’r afael â heriau heb ‘ateb cywir’ naturiol. Mae’r rôl yn atebol ar draws yr awdurdod yn uniongyrchol, yn benodol ar gyfer agweddau cwsmeriaid, gwybodaeth, cyfathrebu a thrawsnewid.*

- **Dylai’r rôl hon barhau ar HS2**

**Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Y rôl hon yw'r fwyaf ymhlith yr ail haen, gydag enghreifftiau o raddfa, cymhlethdod, cyllideb ac amserlenni ar gyfer polisi/datblygu. Nid yw'r ychwanegiad diweddaraf i'r adran (glanhau toiledau cyhoeddus) yn rhoi sail resymegol dros raddfa uchel a, thra bod meddwl yn strategol yn amlwg, nid yw'n elfen barhaus o'r rôl (a ddylai fod ar lefel y Cyfarwyddwr).

*Crynodeb o'r Arfarniad Swydd: F II 3 400        E4 (43) 175*
*E3P 264 = 775-839 Amrediad Pwyntiau Hay*

*Mae'r rôl ar gyfer rhywun proffesiynol a phrofiadol sydd ei hangen ar gyfer amrediad o arbenigeddau peirianyddol gweithredol a strategol. Mae'r rôl yn ehangu dros amrediad o feysydd amrywiol (cynnal a chadw, gwastraff, mynwentydd, strydlun, fflyd, cynnal a chadw tiroedd, toiledau cyhoeddus a meysydd chwarae, teledu cylch cyfyng) gyda chymhlethdod i gydlynu ac integreiddio/alinio dros amser – ynghyd â chynllunio a datblygu ymatebion hir dymor i faterion y Cyngor (gwastraff). Rhaid i'r rôl yrru newid ac arwain swyddogaeth sylweddol sy'n ymateb i faterion uniongyrchol a hir dymor.*
*Mae'r rôl yn penderfynu sut ddylai pethau gael eu gwneud ar draws gwasanaethau i ddatblygu a gweithredu perfformiad, gan fynd i'r afael â heriau heb 'ateb cywir' naturiol. Mae'r rôl yn atebol yn uniongyrchol iawn dros berfformiad yn y maes, ynghyd â darpariaeth yn y tymor hwy.*

- **Dylai'r rôl hon barhau ar HS2**

**Pennaeth Strategol a Gwella**

Mae'r rôl yn hanfodol wrth ddatblygu a chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ac yn gynyddol allweddol wrth ddatblygu ac ymgysylltu ag Aelodau ac (yn benodol) Aelodau cyffredin (nad ydynt ar y Cabinet). Nid yw ehangder a sgôp y rôl wedi newid ddigon i gyfiawnhau cynnydd yn y raddfa, gan fod y lefel gyfredol yn adlewyrchu lefel gyfredol y cyfrifoldeb.

*Crynodeb o'r Arfarniad Swydd: F II 3 400         E4 (43)  175*
*E4C+ 230 = 775-839 Amrediad Pwyntiau Hay*

*Mae'r rôl yn un ar gyfer rhywun proffesiynol a phrofiadol sydd â phrofiad ac arbenigedd helaeth a chynhwysfawr mewn polisi, perfformiad, llywodraethu a thrawsnewid. Mae'r rôl yn arwain maes gwasanaeth bychan, ond mae ganddi elfen gorfforaethol wrth wella a gyrru newid/perfformiad. Rhaid i'r rôl integreiddio ac alinio blaenoriaethau, cynlluniau a mesurau i gyflawni cynllun newid critigol. Rhaid i'r rôl arwain swyddogion ac Aelodau ynghyd â gyrru cydweithrediad gyda budd-ddeiliaid eraill ar draws y rhanbarth.*
*Mae'r rôl yn datblygu'r ffordd yr ymdrinnir â chyflwyno gwasanaeth a pholisi ac yn wynebu heriau sylweddol sy'n gofyn am ddulliau arloesol ac addasol. Mae atebolrwydd yn bodoli ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol (yn cynnwys y Gwasanaethau Democratiaeth bellach) a chefnogi'r awdurdod yn ehangach i gyflwyno a gwella. Mae maint y rôl wedi cynyddu, gan dderbyn mwy o weithgaredd gwasanaeth uniongyrchol, ond yn gyffredinol mae lefel y gwaith / y raddfa wedi aros yr un peth.*

- **Dylai'r rôl hon barhau ar HS2**

**<u>Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden</u>**

*Crynodeb o'r Arfarniad Swydd:*
*F II+ 3 460 E+4 (50) 230 E+4-P 350 = 1040 Cyfanswm Pwyntiau Hay*

*Mae'r rôl yn un ar gyfer rhywun proffesiynol a phrofiadol ym maes gofal a darpariaeth amrywiol, ynghyd â bod yn swydd statudol. Mae gofyn am arbenigedd a phrofiad amrywiol mewn newid ac arwain gwasanaeth.Mae integreiddio gwasanaethau yn gymhleth, gyda'r is-swyddogaethau'n amrywiol (yn fwy o ran graddfa na'r rhan fwyaf o'r lleill). Mae'r her arweinyddiaeth yn sylweddol – yn fewnol ac yn allanol – wrth yrru lefelau uchel o berfformiad mewn gwasanaeth cymhleth a hanfodol.*
*Mae'r rôl, o gael mynediad i'r uwch dîm arweinyddiaeth a chael dylanwad arno, yn fwy strategol na llawer o'i chymheiriaid.*

**Tâl**

Ar sail ailarfarnu'r rôl fel un sydd â 1040 o Bwyntiau Hay, byddem yn argymell tâl ar raddfa gan ddefnyddio'r un polisi (Chwartel Isaf) ag ar gyfer y graddfeydd HS3 safonol a Chyfarwyddwyr Strategol. Yn seiliedig ar ddata Ionawr 2012 a oedd yn sail i'r adolygiad tâl diweddaraf, y raddfa farchnad chwartel isaf ar gyfer rolau o 1040 o Bwyntiau Hay yw £80,972.

| Maint y Rôl | UD | UQ | Canolrif | LQ | LD |
|---|---|---|---|---|---|
| 1040 | 115,551 | 100,825 | 89,897 | 80,972 | 73,428 |

- Byddem yn argymell graddfa cyflog o gwmpas y chwartel isaf (£80,972).